Cenn@d

IONAWR 1 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 201

Cyfarchion ar ddechrau 2025



Roedd hi'n hen arferiad yn ein hardal ni yng ngogledd sir Benfro i gyfarch ffrindiau'r fro ar gân ar fore dydd Calan. Byddem yn codi'n fore er mwyn cerdded rhyw bedair milltir o gwmpas cartrefi'r ardal i ganu a derbyn arian a losin. Y gân fwyaf poblogaidd oedd: "Blwyddyn newydd dda i chi ac i bawb sydd yn y tŷ".

Ond, beth am ganeuon dydd Calan heddiw? Beth yw fy nymuniad i chi ar ddechrau'r flwyddyn newydd. Dwi wedi dewis tair cân ar eich cyfer:

1. Cân am sicrwydd ffydd (Eseia 43:1–4)
Yn awr, dyma'r hyn a ddywed yr ARGLWYDD
a'th greodd, Jacob, ac a'th luniodd, Israel:
"Paid ag ofni, oherwydd gwaredaf di;
galwaf ar dy enw; eiddof fi ydwyt.

Pan fyddi'n mynd trwy'r dyfroedd, byddaf gyda thi;
a thrwy'r afonydd, ni ruthrant drosot.
Pan fyddi'n rhodio trwy'r tân, ni'th ddeifir,
a thrwy'r fflamau, ni losgant di.

Does neb meidrol yn gwybod beth a ddaw ar ein traws yn 2025, ond mae'r Arglwydd yn gwybod yn barod. Bydd galw arnom i fentro mewn ffydd yn y flwyddyn newydd, i gamu'n hyderus gydol y flwyddyn ac i dorri cwys newydd efallai. Pan fyddwn yn mynd trwy'r dyfroedd neu'n rhodio trwy'r tân, gallwn fod yn sicr fod yr Arglwydd gyda ni. Mae e'n addo ein cadw am ein bod yn werthfawr yn ei olwg ac yntau'n ein caru ac wedi rhoi ei Fab yn bridwerth drosom. Dyma gân hyderus ffydd a'r cytgan yn orfoleddus, "Eiddof fi ydwyt".

2. Cân am esiampl o wasanaeth (Philipiaid 2:6–11)
"Er ei fod ef ar ffurf Duw, ni chyfrifodd fod cydraddoldeb â Duw yn beth i'w gipio,
ond fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas a dyfod ar wedd ddynol.

(parhad ar y dudalen nesaf)

Roedd 2024 yn flwyddyn drom o brofedigaethau i ni fel enwad wrth i ni golli ffyddloniaid o'n plith i blith y cwmwl tystion. Ond ar drothwy blwyddyn newydd rydym ninnau'n dysgu cyfri ein dyddiau 'fel y dygom ein calon i ddoethineb', fel y dyhea'r Salmydd (Salm 90:12). Gwyddom bellach pa mor bwysig yw pob un dydd, ond mae'r doethineb sy'n dod oddi wrth Dduw yn ein dwyn hefyd i bwyso ar yr hyn sy'n dragwyddol ac yn anweledig.

Mae'n ddiddorol sylwi ar y termau 'amser' a ddefnyddir gan Iesu. Mewn rhai mannau ar achlysuron arbennig mae'n defnyddio'r gair 'awr'. 'Ni ddaeth fy awr i eto,' meddai wrth ei fam, Mair, yn y briodas yng Nghana. Yn nes ymlaen yn ei weinidogaeth fe ddywed fod ei 'awr' wedi dod – yr awr o dderbyn ei ogoneddiad yn ôl gan ei Dad nefol (Ioan 17:1).

Ac eto, mewn man arall, yn y synagog yn Nasareth y tro hwn, ar ddechrau ei weinidogaeth, mae'n dweud bod y broffwydoliaeth am 'flwyddyn' ffafr yr Arglwydd wedi'i chyflawni. Roedd hynny yn ei ddyfodiad i'r 'heddiw' rhyfeddol yna pan ddaeth yr addewidion am ryddid i'r caethion ac iachâd i'r cleifion ac yn y blaen i glyw'r gynulleidfa.

Fe'n hatgoffir ni mewn lle arall nad ydym ni i wybod yr amseroedd na'r prydiau o ragluniaethau Duw ar ein cyfer, na chwaith ar gyfer y byd (Actau 1:7). Fel lleidr yn y nos y daw rhai o oriau Duw ar ein traws, yn frawychus o sydyn (1 Thesaloniaid 5:20). Mae doethineb Duw yn ein paratoi am hyn hefyd, ac nid yn unig y gwerthfawrogiad diolchgar yna am bob un dydd neu'r paratoi am y tragwyddol a'r anweledig. Gyda'r annisgwyl, dysgwn sut i bwyso ar yr Arglwydd a derbyn o'r gras sy'n ddigonol i ni i wynebu pob un dydd yn ei dro (2 Corinthiaid 12:9).

Dyna sydd wedi bod yn ysbrydoliaeth i mi dros gyfnod fy Llywyddiaeth gyda chi, sef, wrth gydweddïo'n gyson, ein bod wedi dod gyda'n gilydd i bwyso fwyfwy fel hyn ar ras ein Harglwydd Iesu. Yn ein gweddïau rydym yn naturiol yn eiriol

(parhad ar y dudalen nesaf)

Y Parch. Elfyn Richards, Rhosllannerchrugog
Tudalen 2

Brwdfrydedd yn Nant Conwy
Tudalen 3

Annwyl Olygyddion
Tudalen 4

Cyfarchion ar ddechrau 2025

(parhad o dudalen 1)

O'i gael ar ddull dyn, fe'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes."

Mae 2025 yn galw am wasanaeth gostyngedig gydag *overalls*, *wellingtons*, ffedog, tywel a phadell wrth wasanaethu ein gilydd, ac eraill y tu allan i deulu'r ffydd, yn enw Iesu. Dyma'r esiampl fwyaf erioed o ostyngeiddrwydd: Iesu'n rhoi heibio gogoniant y nefoedd dros dro i blygu o flaen ei ffrindiau a golchi eu traed. Boed nod gwasanaeth ar bob gweithred o'n heiddo ar hyd y flwyddyn. Boed i bersawr Crist lenwi tai wrth inni fynd i mewn iddynt. Boed i lais Iesu gael ei glywed yn ein geiriau caredig ni.

3. Cân o fawl

"Teilwng yw'r Oen a laddwyd i dderbyn gallu, cyfoeth, doethineb a nerth, anrhydedd, gogoniant a mawl."

Yn ôl hen draddodiad dydd Calan, roedd yn rhaid i'r canu ddod i ben erbyn hanner dydd, ond nid felly gyda chaneuon o fawl i'r Oen: "Ni cheir diwedd byth ar sŵn y delyn aur!" Dwi wrth fy modd yn canu emynau, hen a newydd! Dwi wrth fy modd yn cysylltu themâu a llinellau mewn emynau ag adnodau o'r Beibl a cheisio dyfalu meysydd myfyrdod yr emynwyr wrth ganu eu hemynau o fawl. Boed i'n myfyrdodau ni yn y Beibl droi'n ganeuon o fawl i'r Arglwydd Iesu ar hyd y flwyddyn.

Dyma yw fy nymuniad i ar eich cyfer yn y flwyddyn newydd: sicrwydd ffydd, nod gwasanaeth a llawenydd mawl.

Geraint Morse
Llywydd
Undeb Bedyddwyr Cymru

Cyfarchion y Llywydd 2025

(parhad o dudalen 1)

dros ein gilydd, dros weithgarwch a thystiolaeth amrywiol yr eglwys. Ond hefyd mae ein gweddïau wedi ein dwyn yn nes gyda'n gilydd at y doethineb yma a ddaw oddi wrth Ysbryd Duw. Dyma sy'n ein galluogi i ddirnad ein gweinidogaeth yn y byd hwn o amser a cherdded fel rhai â'u bryd ar y tragwyddol a'r anweledig. Rydym fel pererinion sy'n cydgerdded gan bwyso ar Dduw a'i ras digonol o ddydd i ddydd. Mae'r doethineb hwn wedi dwysáu ein gweddïau dros sefyllfaoedd dyrys y byd: rhyfeloedd, erledigaethau, fel yn Manipur, a phrofedigaethau annisgwyl. Mae hefyd wedi ein cynorthwyo i roi diolch am yr Efengyl sanctaidd a llawenydd dwfn yr iachawdwriaeth yng Nghrist.

"Arglwydd, eleni eto, dysg ni i bwyso arnat o ddydd i ddydd a gwna ni'n ddiolchgar am bob un awr a dydd o ras a gawn o'th law fel y medrwn barhau i'th wasanaethu mewn llawenydd a doethineb." Amen.

Blwyddyn Newydd Dda i chi a bendith Duw yn helaeth.

O. Aneurin Owen
Llywydd
Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Ar ddechrau 2025

'Un ias fer rhwng dwy nos faith' – yw ein byw
Yn ôl y bardd unwaith ...
er holi'r Geni ganwaith,
onid Duw sy'n llywio'n taith?

Norman Closs Parry

(Y llinell gyntaf gan T. Gwynn Jones)

Y Parch. Elfyn Richards, Rhosllannerchrugog

Daeth newyddion trist fore Sul, 8 Rhagfyr, am farw sydyn ond tawel y Parch. Elfyn Richards, Ponciau. Bu i Elfyn ddechrau ei weinidogaeth yng Ngherrigydrudion cyn symud i'r Wyddgrug, lle bu'n gofalu am eglwys Bethesda am gyfnod tra oedd yn athro yn Ysgol Maes Garmon yn y dref. Gyda Phonciau, ger Rhosllannerchrugog, y byddwn yn cysylltu ei enw, lle roedd yn parhau i arwain eglwys Bethel.

Cydymdeimlwn yn fawr â Gwenda, ei wraig, Clwyd a Sharon a'r teulu i gyd, a'r eglwys ym Mhonciau ac yn ehangach yn y Rhos, lle roedd gan bawb gymaint o feddwl ohono. Cynhelir ei angladd yng Nghapel Bethel, Ponciau, ddydd Iau, 9 Ionawr 2025, am 12 o'r gloch, gyda thraddodiant i ddilyn yn Amlosgfa Pentrebychan.

Cyhoeddi lluniau yn *Cenn@d*

Mae cael lluniau safonol a deniadol yn allweddol i ffyniant *Cenn@d*, a diolchwn i bawb sy'n gyrru lluniau gyda'u herthyglau. Wrth gyflwyno lluniau, byddai'n dda nodi'r canlynol:

- dylid gyrru lluniau fel ffeiliau ar wahân (JPG, TIFF neu PNG) ac nid wedi eu cynnwys o fewn dogfen Word;
- dylid sicrhau'r safon orau posib o ran maint – mae llawer o luniau'n ein cyrraedd sydd wedi eu harbed mewn maint mor fach fel bod y safon yn isel iawn;
- dylid sicrhau bod caniatâd i gyhoeddi wedi ei roi gan y sawl a dynnodd y llun, a bod caniatâd hefyd wedi ei roi gan rieni os oes lluniau o blant yn cael eu gyrru atom, fel adeg y Nadolig;
- os oes angen cydnabod enw'r sawl a dynnodd y llun, dylid nodi hynny.

Mae'n dda hefyd cael capsiwn i gyd-fynd â phob llun. Yn aml cawn lun o 4–6 o bobl mewn rhes mewn sêt fawr, ond dim eglurhad pwy sydd yn y llun.

Os ydych yn gyrru llun atom gan drydydd parti (h.y. llun rydych wedi ei godi o rywle arall), byddem yn ddiolchgar pe baech yn nodi'r ffynhonnell er mwyn i ni fedru gwirio bod hawl gennym i'w gyhoeddi yn *Cenn@d*. Byddem hefyd yn gwerthfawrogi petaech yn sicrhau bod unrhyw luniau sy'n cael eu gyrru atom yn rhydd o gyfyngiadau hawlfraint a bod gennych yr hawl i'w cynnwys fel rhan o erthygl yn *Cenn@d*.

Gyda diolch am eich cydweithrediad,
Y tîm golygyddol

Brwdfrydedd yn Nant Conwy

Morgan Elwy wedi bod yn creu cân Nadoligaidd gyda'r clybiau CIC i'w chyflwyno yn ein gwasanaethau Nadolig y flwyddyn yma

Cystadleuaeth pêl-droed oedolion 'Cwpan y Gofalaethau'

Cystadleuaeth Cwpan CIC, sef cystadleuaeth bêl-droed i glybiau CIC yr ofalaeth

Tri pheth sydd eu hangen i gael datblygiad mewn ardal wledig, sef brwdfrydedd y werin, y person iawn i arwain ac, wrth gwrs, arian. Mae newid yn gadarnach yn dod o'r werin, yn ôl hanes, a dyna ddigwyddodd. Roedd nifer wedi clywed am ŵr lleol, sef y Parch. Owain Davies, oedd yn y coleg yn dilyn cwrs at y weinidogaeth ac wedi cyflawni gwaith ardderchog fel gweithiwr gyda theuluoedd ym Mangor. Y nod felly oedd ei gael yn weinidog yn Nyffryn Conwy. Mentrwyd i drefnu cyfarfod yn 2020 o holl eglwysi Presbyteraidd ac Annibynnol yr ardal, a chafwyd ymateb gwefreiddiol o gytundeb i symud ymlaen i sefydlu gofalaeth fro. Llwyddwyd i gael grant Gweinidogaeth Newydd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Cafwyd hefyd gymorth ariannol gan Undeb Annibynwyr Cymru dros y blynyddoedd, yn cynnwys grant ychwanegol yn ddiweddar. Roedd hyn yn rhyddhau Owain i weithio tu hwnt i furiau am ddau ddiwrnod yr wythnos. Sefydlwyd y Parch Owain Davies yn weinidog. Roedd y tri pheth a nodwyd uchod wedi eu gwireddu. Diolchwn drwy ras Duw ein bod wedi cael gweledigaeth i dynnu pawb at ei gilydd cyn i eglwysi unigol ddechrau digalonni.

Nid oedd hyn yn ddim ond gosod sylfaen i ddatblygiadau cyffrous pellach yn yr ardal. Rhannwyd yr ofalaeth yn dri chlwstwr o eglwysi i weithio fel timau a chydaddoli, gan ysgafnhau gorchwylion gweinidog mewn ardal mor eang. Gwelwyd y diddordeb yn tyfu a gwên ar wynebau pobl mewn oedfaon. Dan arweiniad Owain, gwelwyd niferoedd teilwng yn mynychu cyfarfodydd teuluol. Mae gwaith cymunedol gyda phlant a phobl ifanc a'r byd amaethyddol yn mynd rhagddo. Daeth golwg newydd ar bethau, gan weld mai trwy ddulliau gwahanol i'r traddodiadol y mae rhannu neges yr Efengyl, ond gan gadw cysylltiad â'r eglwysi yr un pryd. Yr eglwysi o hyd sydd yn sylfaen i'r cwbl.

Mae neges Crist yn curo ar ddrws ein clybiau CIC, chwaraeon a drysau amaethyddiaeth, yn ogystal â theuluoedd oedd wedi dieithrio a cholli cysylltiad. Sefydlwyd Owain yn ogystal yn gaplan y clwb rygbi, ac mae'n rhan o drefniadaeth y clwb i gefnogi parthed iechyd meddwl. Deffrowyd hefyd yr ysgolion Sul wedi'r Cofid.

Deil brwdfrydedd yr Ofalaeth Fro sy'n parhau i ysgwyddo baich ariannol i ryddhau Owain i ymestyn allan tu hwnt i furiau. Mae ei frwdfrydedd yn heintus a'n diolch yn fawr iddo. Mae grantiau'r ddau enwad wedi bod yn werthfawr iawn, a diolch amdanynt. Yn anffodus, gwêl llawer ein heglwysi'n ymylol i'w bywydau a rhagwelir llai yn ymaelodi. Mae her i ni a'r enwadau, felly, i fod yn greadigol parthed sut yr ariennir gwaith fel hwn i'r dyfodol, gan gadw mewn golwg barhad rolau traddodiadol eglwysi. Pleser yw cyflwyno ambell lun sy'n rhoi cip ar rai o'r gweithgareddau sy'n mynd ymlaen yn ein hardal.

Huw Roberts
Cadeirydd Gofalaeth Bro Nant Conwy

'Os oes raid i mi farw' gan Rafaat Alareer

Flwyddyn yn ôl, ar 6 Rhagfyr 2023, lladdwyd yr awdur a'r athro Palestinaidd Refaat Alareer mewn cyrch awyr gan fyddin Israel, ynghyd â'i frawd, mab ei frawd, ei chwaer a'i thri o blant.

Rhannodd Refaat naratifau di-ri am erchyllterau meddiannaeth Israel a'r system apartheid yno, a bu'n mentora llawer o awduron Palesteinaidd. Mae ymhlith llu mawr o awduron a beirdd, gweithwyr dyngarol, newyddiadurwyr, athrawon a meddygon sydd wedi eu lladd yn Gaza yn y rhyfel yn eu herbyn sy'n parhau o hyd.

Mae cerdd Refaat 'Os oes raid i mi farw' wedi cael ei rhannu'n eang ers iddo gael ei ladd. Bu ymdrech i'w chyfieithu ar y cyfryngau cymdeithasol i ddwsinau o ieithoedd: Sbaeneg, Saesneg, Eidaleg, Tamil, Wrdw, Tagalog, Groeg, Japaneeg, Wcreineg a mwy. Rydym yn ei chynnig yma yn Gymraeg ac Arabeg.

(Gol. HP-D)

'Os oes raid i mi farw' (Refaat Alareer)

Os oes raid i mi farw,
rhaid i ti fyw
i ddweud fy hanes
i werthu fy mhethau
i brynu darn o ddefnydd
a rhai llinynnau
(boed iddo fod yn wyn â chynffon hir)
er mwyn i blentyn, rywle yn Gaza,
wrth edrych ym myw llygad y nef
ac aros am ei dad, adawodd yn wenfflam –
heb ffarwelio â neb,
ddim hyd yn oed â'i deulu
dim hyd yn oed ag ef ei hun –
weld y barcud, fy marcud, y barcud a wnest ti, yn hedfan uwchben
a meddwl am eiliad fod angel yna
yn dod â chariad yn ôl.
Os oes raid i mi farw,
boed iddo ddod â gobaith,
boed iddi fod yn chwedl gynffon hir.

cyf. Fiona Collins

Annwyl Olygyddion,

Carwn ddiolch i'r Parchedig Denzil John am ei erthygl ystyrlon a sensitif yn rhifyn 198 o *Cenn@d*, 'Hawl i farw, Hawl i fyw', a hynny wythnos ar ôl i'm llythyr i ymddangos yn *Cenn@d*.

Cyfeiriodd fy nghyfaill at ddistawrwydd yr eglwys ar fater cymorth i farw, ac oherwydd hynny teimlais reidrwydd i geisio ewyllys Duw ar y mater, a mentro rhannu gair, er bod yna lawer o ddarllenwyr *Cenn@d* sy'n fwy cymwys a deallus na mi i drafod hyn, a chyn-weinidog Tabernacl, yr Ais, yn eu plith. Diolchwn iddo am ei gyfraniadau cyson ac adeiladol.

Rhaid cyfaddef fod creaduriaid syml fel fi yn tueddu i orsymleiddio. Ond onid tuedd yr eglwys heddiw yw gorgymhlethu mewn byd sy'n chwilio am atebion syml? Teimlaf nad gorsymleiddio yw dweud fod bywyd yn sanctaidd. Onid ydym wedi ein creu ar lun a delw Duw? Ydw, dw i'n un sy'n 'codi adnodau i [geisio p]rofi fy safbwynt'. Onid dyna ddylai pob Cristion ei wneud? Wrth gwrs, mae gan bob un ohonom yr hawl i drafod a yw'r adnodau hynny'n cael eu priodoli'n gywir, a rhaid i minnau, fel pawb arall, fodloni ar gael fy nghywiro.

Yn fy llythyr yn rhifyn 197, fe gyfeiriais at Salm 139 sydd yn dweud fod bywyd person yn dechrau gyda'r cenhedlu, rhywbeth sy'n cael ei gadarnhau mewn sawl man arall, e.e. Jeremeia 1:5; Salm 51:5 a Job 10:9–11. Roedd fy nghyfaill yn iawn i'n hatgoffa fod y salmydd yn yr un salm yn dyheu am 'ddialedd a chosb drwy farwolaeth fwriadol'. Ond er ei ysbryd dialgar, mae'r salmydd yn cydnabod taw Duw sydd â'r hawl i ddial (19), ac yn cydnabod fod angen archwiliad treiddgar Duw arno er mwyn ei arwain ar y ffordd sy'n gyfiawn. Mae angen yr un archwiliad arnaf i'n aml er mwyn f'atgoffa o eiriau Crist ym Mathew 5:44. Cyfeiriodd fy nghyfaill at hanes trist Ananias a Saffeira yn Actau 5. Nid oes gofod i drafod y mater yn gyflawn nawr, ond onid ewyllys Duw oedd iddynt gael byw, a taw eu dewis nhw o 'adael i Satan gael gafael [ynddynt]' a 'dweud celwydd wrth yr Ysbryd Glân' arweiniodd at eu marwolaeth?

Gofynnodd fy nghyfaill ai ewyllys Duw yw marwolaeth y rhai sy'n cael eu lladd ar faes y gad, neu gan lofrudd neu fomiwr? Yn sicr ddim. Ond onid y ffaith drist yw ein bod yn byw mewn byd sydd dan felltith Duw, a bod marwolaeth a barn ynghlwm wrth y felltith, a hynny oherwydd ein dewis ni yn Eden (Genesis 2:17)? Onid dyna pam mae gennym fyd sy'n cynhyrchu ambell arweinydd creulon, a sefyllfaoedd sy'n arwain at ryfeloedd, yn ogystal â bomwyr a llofruddwyr? Onid canlyniad anorfod ein dewis ni yn Eden yw heintiau fel y Coronafeirws? Onid yw angau ei hun, pa ffordd bynnag y daw i'n rhan, yn ganlyniad i hyn? Onid yw'r holl bethau hyn yn adlewyrchu difrifoldeb y Cwymp? Diolch am eiriau'r apostol: 'Lle yr amlhaodd y pechod, y rhagor amlhaodd gras' (Rhufeiniaid 5:20)

Dywedodd fy nghyfaill ei fod yn 'eiddigeddus o unrhyw un sy'n edrych ar bynciau'r byd a gweld lluniau du a gwyn'. Diolchaf nad oes ganddo reswm i fod yn eiddigeddus ohonof i. Os yw ef ddim ond yn gweld ychydig yn unig drwy'r llwydni, dwi'n gweld llai fyth. Mae cymhlethdodau'r hen fyd yma'n fy llethu yn aml. Ond diolch bod y ddau ohonom yn gallu dweud 'amen' i eiriau awdur yr Hebreaid, 'Yn union fel mae pawb yn mynd i farw un waith, ac wynebu barn ar ôl hynny, buodd y Meseia farw un waith yn aberth, a chario pechodau llawer iawn o bobl iddyn nhw gael eu maddau. A bydd yn dod yn ôl yr ail waith, dim i ddelio gyda phechod y tro hwn, ond i achub pawb sy'n disgwyl yn frwd amdano.' (Hebreaid 9)

Er bod yn rhaid i ni gyd 'farw un waith, a wynebu barn', diolch y gallwn fod yn sicr fod Duw 'am i bobl o bob math gael eu hachub a dod i wybod y gwir' (1 Timotheus 2). Diolch am symlrwydd yr efengyl sy'n dweud wrthym, 'Os ydyn ni wedi'n huno â'i farwolaeth, dyn ni'n siŵr o gael ein huno hefyd â'i atgyfodiad' (Rhufeiniaid 6).

Gan ddymuno Nadolig Llawen i chi gyd, gan gofio taw 'ynddo ef yr oedd bywyd; a'r bywyd oedd oleuni dynion'.

Yn frawdol,
Heini Jones

Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

S4C ***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
Sul, 5 Ionawr, am 7:30yh
Bydd Lowri Morgan ar arfordir Ceredigion i ymuno â chriw o fenywod sy'n mentro i'r môr yn oerfel y gaeaf – ffordd berffaith o groesawu blwyddyn newydd sy'n llawn posibiliadau. Cawn fwynhau gwledd o ganu mawl a pherfformiad disglair gan Celyn Cartwright.

BBC radio cymru ***Caniadaeth y Cysegr***
Sul, 5 Ionawr, am 7:30yb a 4:30yp
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Iwan Llywelyn Jones

Oedfa Radio Cymru
Sul, 5 Ionawr, am 12:00yp
Oedfa dan arweiniad Angharad Tomos, Pen-y-groes

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru